

Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Dyddiad: 18 Mehefin 2003

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd

IS-DDEDDFWRIAETH

Diben

1. Bwriad y papur hwn yw rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y meysydd hynny sy'n debygol o arwain at is-ddeddfwriaeth o fewn portffolio'r Gweinidog yn ogystal â nodi'r amseriad sy'n gysylltiedig â hwy.

Y Cefndir

2. Mae'r papur yn disgrifio'r pynciau eang sydd o fewn y portffolio lle'r wyf yn disgwyl y bydd angen cyflwyno is-ddeddfwriaeth er mwyn rhoi'r polisïau newydd hyn ar waith a lle mae'r is-ddeddfwriaeth honno yn gyffredin, yn dechnolegol, ac yn ofyniad rheolaidd, e.e blynyddol. Os yw'r Pwyllgor yn cytuno, hoffwn barhau â'r arfer o gyflwyno'r atodlen yn Atodlen 1 ym mhob cyfarfod. Bydd hyn yn nodi'r rhaglen is-ddeddfwriaeth yr ydym yn disgwyl ei chyflwyno ac yn rhoi manylion am y llwyddiannau. Fel y gwelwch, mae yna gryn dipyn o ddeddfwriaeth i'w chyflwyno, os daw'r Mesur Llywodraeth Leol i rym.

3. Bydd y Pwyllgor yn dymuno bod yn ymwybodol o'm man cychwyn mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth. Yr wyf yn bwriadu dilyn y weithdrefn safonol ym mhob achos - bydd defnyddio'r weithdrefn weithredol yn eithriad yn hytrach na'n rheol. Bydd hyn yn sicrhau bod y Cyfarfod Llawn yn ymwybodol o bob cam o'r broses. Bydd diwallu fy nymuniad yn dibynnu'n llwyr ar yr amser fydd ar gael yn y Cyfarfod Llawn i gynnal dadl. Pan fydd hi'n anodd sicrhau amser yn y Cyfarfod Llawn, efallai y bydd rhaid blaenoriaethu eitemau busnes yn unol â safbwyntiau'r Trefnydd a Rheolwyr Busnes y Gwrthbleidiau yn y Pwyllgor Busnes. Mae'n fwiad gennyf hefyd roi cyfle i'r Pwyllgor ystyried yr holl is-ddeddfwriaeth yr wyf yn ei chyflwyno - oherwydd yr amseriad ar rai adegau, efallai y bydd rhaid ystyried drafftiau yn hytrach na'r fersiynau terfynol ond fe fydd cyfle i gynnal trafodaeth ym mhob achos. . Byddaf yn hysbysu'r Pwyllgor cyn gynted ag y bydd yr angen am is-ddeddfwriaeth yn codi.

Argymhelliad

4. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys y papur a chytuno i dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor.

Materion

5. Dyma'r prif feysydd lle y mae angen is-ddeddfwriaeth -

Rheoli systemau y dreth gyngor ac ardrethu annomestig cenedlaethol yng Nghymru.

Yn fyr, mae yna nifer o Reoliadau technolegol sy'n rhaid eu diweddarau'n flynyddol, er enghraifft, Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2003 yw'r diweddariad blynyddol o'r rheolau y mae cynghorau yn eu defnyddio i gyfrif eu cyfraniadau i'r Gronfa Ardrethi Annomestig.

Serch hynny, bydd angen ambell i ddeddfwriaeth newydd ar ôl dod â'r Mesur Llywodraeth Leol i rym - mae rhannau o'r Mesur yn parhau heb eu diffinio ond mae'r Atodlen yn Atodiad 1 yn ceisio nodi rhai o'r meysydd lle y bydd angen Rheoliadau newydd.

Rheoli system cyllid cyfalaf llywodraeth leol

Mae hwn yn cynnwys rheoliadau mewn perthynas â chymeradwyaethau credyd i awdurdodau lleol yng Nghymru. Bydd yr holl drefniadau'n cael eu disodli gan drefniadau newydd ar gyfer benthyca, ac yr wyf wedi cyfeirio atynt ym mhapurau blaenorol y Pwyllgor. Os bydd y trefniadau newydd hyn yn barod i'w cyflwyno ar gyfer 1 Ebrill 2004 yna mae'n debygol iawn y byddaf yn gwahodd y Pwyllgor i ystyried drafftiau o'r ddeddfwriaeth er mwyn cyflawni'r amserlen.

Rheoli setliad Refeniw Llywodraeth Leol

Yr elfen allweddol yn y fan hon yw rhannu adroddiad cyllid llywodraeth leol yn ddwy ran ar wahân - un ar gyfer yr awdurdodau heddlu yng Nghymru ac un ar gyfer awdurdodau lleol a chyrrff penodedig. Nid yw'n debygol y bydd angen rheoliad i ddod â hyn i rym - bydd hynny'n digwydd yn rhan o'r Gorchymyn Cychwyn - ond mae'n debyg y bydd angen cyflwyno gwelliannau i Reolau Sefydlog 19.8 - 19.10. Y rheswm dros hyn yw bod deddfwriaeth sylfaenol yn rhoi dewis bob blwyddyn i lunio adroddiadau ar y cyd neu adroddiadau ar wahân.

Bydd angen rheoliad i ganiatáu trin Comisiwn Gweinyddiaeth Leol yng Nghymru fel corff penodol ar gyfer cyfrif y setliad. Ni fydd hyn yn gorfodi unrhyw newid o bwys i'r setliad ond yn hytrach bydd yn sicrhau ei fod yn cael ei drin yn gyson â'r cyrrff penodol eraill.

Camau i'w cymryd

6. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys yr Adroddiad a chytuno bod y rhaglen is-ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor er mwyn monitro llwyddiant.

Sue Essex

Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Cyswllt: Mike Chown est 1367 (Materion Cyllid Llywodraeth Leol)

Kate Cassidy est 3782 (Materion yn ymwneud â Moderneiddio
Llywodraeth Leol)